Rhagfyr 2024

NASUWT
The Teachers' Union

# BWLETIN
# YR AELODAU

## Diweddariad Dyfarniad Cyflog 2024/25

Mae'r Gymdeithas Llywodraeth Leol (LGA) wedi cyhoeddi ei chylchlythyr ar gyfer 2024/25 ynghylch y dyfarniad cyflog i athrawon sy'n gweithio mewn sefydliadau preswyl.

### Lloegr

Mae cylchlythyr yr LGA yn cadarnhau y bydd codiadau cyflog ar gyfer 2024/25 ar gyfer yr athrawon dosbarth ac arweinyddiaeth hynny a gyflogir o dan delerau Dogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (STPCD).

Ceir rhagor o fanylion am ddyfarniad cyflog 2024/25 ar gyfer athrawon sy'n gweithio mewn sefydliadau preswyl yn Lloegr yn: **www.nasuwt.org.uk/PayAwardEngland.**

Er na chyfeirir ato yn y cylchlythyr, dylid nodi bod yr STPCD diwygiedig yn Lloegr yn caniatáu datgysylltu cyflog oddi wrth reoli perfformiad.

Er na chyfeirir ato yn y cylchlythyr, dylid nodi bod y STPCD diwygiedig bellach yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr yn Lloegr ddewis a fyddant yn datgysylltu cyflog oddi wrth reoli perfformiad ai peidio. Dylai sefydliadau preswyl fod yn ymwybodol o hyn wrth adolygu polisïau tâl.

Yn wir, mae NASUWT yn haeru bod yn rhaid dileu yr egwyddor o dâl ar sail perfformiad, a diwygio polisïau tâl a rheoli perfformiad yn unol â hynny. Mae'r Undeb wedi cyhoeddi rhestrau gwirio diwygiedig ar gyfer polisïau **tâl** a **rheoli perfformiad,** heb unrhyw gysylltiad rhwng tâl a pherfformiad, y dylid eu defnyddio i arwain diwygiadau gan y cyflogwyr i'r polisïau hyn.

### Cymru

Ar gyfer athrawon mewn sefydliadau preswyl yng Nghymru, caiff trefniadau cyflog eu pennu gan Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (Cymru) (STPC(W)D). Mae'r graddfeydd cyflog ar gyfer athrawon yng Nghymru yn orfodol ac felly disgwylir i sefydliadau adolygu eu graddfeydd cyflog yn unol â hynny.

Mae rhagor o fanylion am ddyfarniad cyflog 2024/25 ar gyfer athrawon sy'n gweithio mewn sefydliadau preswyl yng Nghymru ar gael yn: **www.nasuwt.org.uk/PayAwardWales.**

Fel y cyfryw, dylai sefydliadau preswyl yng Nghymru a Lloegr adolygu eu graddfeydd cyflog yn unol â hyn.